

3/18 Eagle Wing  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000

E-bost: [GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk](mailto:GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk)

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010072

Dyddiad: 7 Mehefin 2016

Annwyl Syr/Madam

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheol 8(2) Rheolau Cynllunio  
Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd)**

**Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Limited am orchymyn yn rhoi caniatâd  
datblygu ar gyfer Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy**

**Ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a hysbysiad o amrywiad i  
amserlen yr archwiliad.**

Ymhellach i'r penderfyniad gweithdrefnol a'r amserlen a amgaewyd gyda fy llythyr dyddiedig 10 Mai 2016, ysgrifennaf i'ch hysbysu ynghylch fy ail gwestiynau ysgrifenedig a'm penderfyniad i amrywio'r amserlen archwilio.

**1. Ail Gwestiynau Ysgrifenedig**

Hoffwn ddiolch i'r partïon hynny a roddodd ymatebion i'm cwestiynau ysgrifenedig cyntaf. Yng ngoleuni'r ymatebion hynny, a chyflwyniadau ysgrifenedig a materion eraill a godwyd mewn gwrandawladau, rwyf wedi penderfynu gofyn nifer o ail gwestiynau ysgrifenedig.

Mae'r cwestiynau wedi'u cyfeirio, yn y lle cyntaf, at yr ymgeisydd a/neu barti arall a enwir. Fodd bynnag, rwy'n gwahodd partïon â buddiant i ymateb lle mae ganddynt wybodaeth berthnasol i'w chyfrannu. Pan fyddai'n fuddiol cyfeirio at ddogfennau a gyflwynwyd eisoes, rhowch y cyfeirnod perthnasol fel y categoriwyd o fewn llyfrgell yr archwiliad, ynghyd â'r dudalen a/neu rif y paragraff. Mae'r ddolen i lyfrgell archwiliad Cynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy isod:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010072/0.%20Project%20Management/Live%20Examination%20Library.pdf>

Gofynnir fy nghwestiynau er mwyn ceisio gwybodaeth neu eglurhad ychwanegol ynghylch y mater a godwyd. Rwy'n ceisio sicrhau bod digon o dystiolaeth i gefnogi

argymhelliad rhesymegol gadarn.

Mae'r cwestiynau wedi'u gosod o dan benawdau pwnc, a byddai'n ddefnyddiol pe gallai ymatebion ddilyn y fformat hwn a chynnwys rhif cyfeirnod y cwestiynau sy'n cael eu hateb.

Gellir gweld y cwestiynau hyn ar ein gwefan ar Gynllun Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3918147>

Rhaid i ymatebion i'r cwestiynau hyn gael eu derbyn ar neu cyn **12 hanner dydd ar ddydd Mawrth 21 Mehefin 2016**.

## 2. Amrywiad i amserlen yr Archwiliad

Yng ngoleuni cynnwys y cyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd oddi wrth y partion â buddiant hyd yn hyn, ynghyd â'r cyflwyniadau llafar a wnaed yn y gwrandawiadau yn ddiweddar, rwyf wedi penderfynu delio â'r materion sydd heb eu datrys sydd ger fy mron trwy gyfrwng gweithdrefn ysgrifenedig yn hytrach na thrwy unrhyw wrandawiadau pellach.

Ar y sail hon, ni fydd angen defnyddio'r dyddiadau 'wrth gefn' ar gyfer gwrandawiadau, sef 6 a 7 Gorffennaf 2016, a gafodd eu neilltuo yn amserlen yr archwiliad ar gyfer y posibilrwydd y byddai angen Gwrandawriad ar Fater Penodol a/neu Wrandawriad Caffael Gorfodol.

Ymhellach i amserlen yr archwiliad sydd yn Atodiad A i'm llythyr dyddiedig 10 Mai 2016, gwneir amrywiad i'r amserlen o dan Reol 8(3) ac mae hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A y llythyr hwn yn eitemau 14, 15, 16, 17 a 18.

Tynnir sylw'r Ymgeisydd at y newid yn eitem 14 (sef **Dyddiad Cau 5**), gan gyfeirio'n benodol at fy nghais am wybodaeth bellach a wnaed yn y Gwrandawriad ar Fater Penodol a gynhaliwyd ar 17 a 18 Mai 2016. Cytunwyd y bydd dogfennau niferus yn cynnwys cynlluniau rheoli, cytundebau Datganiadau o Dir Cyffredin, mesurau lliniaru ac ati, yn cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau hwn, ac y dylai'r ymgeisydd groesgyfeirio at y recordiadau sain a'r pwyntiau gweithredu a gyhoeddir erbyn hyn ar dudalen prosiect Pwmpio a Storio Glyn Rhonwy ar ein gwefan, sy'n rhoi cyfrif llawn o'r cyflwyniadau a gytunwyd ar gyfer dyddiad cau 5.

Os oes gennych ymholiadau pellach, mae pob croeso i chi gysylltu â'r tîm achos.

Yr eiddoch yn gywir

*Stuart Cowperthwaite*

**Awdurdod Archwilio**

### **Atodiad A:** Amserlen Ddiwygiedig yr Archwiliad

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyferth â chyngor cyfreithiol y gallwch ddbynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a'ch cyngor proffesiynol eich hun fel y bo'r angen

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

**Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer archwilio'r cais (ar eitemau 14, 15, 16, 17 ac 18)**

Eitem	Materion	Dyddiadau Priodol
14.	<p><b>Dyddiad Cau 5</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr AA</li> <li>• Sylwadau ar Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a dderbyniwyd gan yr AA ar gyfer Dyddiad Cau 4</li> <li>• Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA, os oes angen</li> </ul>	<p><b>12 hanner dydd</b></p> <p><b>Dydd Mawrth 21 Mehefin 2016</b></p>
15.	<p><b>Dyddiad Cau 6</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer cyfleu'r canlynol i'r AA:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft terfynol yr ymgeisydd</li> <li>• Unrhyw Datganiadau Tir Cyffredin diwygiedig</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth a/ymatebion a dderbyniwyd gan yr AA ar gyfer Dyddiad Cau 5</li> <li>• Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA, os oes angen</li> </ul>	<p><b>12 hanner dydd</b></p> <p><b>Dydd Llun 4 Gorffennaf 2016</b></p>
16.	<p>Yr AA yn cyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr AA (os oes angen er mwyn hwyluso'r archwiliad)</li> <li>• Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd</li> </ul>	<p><b>Dydd Mercher 20 Gorffennaf 2016</b></p>
17.	<p><b>Dyddiad Cau 7</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr AA</li> <li>• Sylwadau ar yr adroddiad ar oblygiadau ar gyfer safleoedd Ewropeaidd</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a geisir gan yr AA ac a dderbynnir cyn Dyddiad Cau 6</li> <li>• Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA, os oes angen</li> </ul>	<p><b>12 hanner dydd</b></p> <p><b>Dydd Mercher 10 Awst 2016</b></p>
18.	<p><b>Dyddiad Cau 8</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymatebion i sylwadau ar Ochymyn Caniatâd Datblygu drafft yr AA</li> <li>• Ymatebion i sylwadau ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd</li> </ul>	<p><b>12 hanner dydd</b></p> <p><b>Dydd Mercher 17 Awst 2016</b></p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Unrhyw Datganiadau Tir Cyffredin diwygiedig</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA ar gyfer Dyddiad Cau 7</li> <li>• Unrhyw wybodaeth arall a geisir gan yr AA, os oes angen</li> </ul>	
19.	Mae'r AA o dan ddyletswydd i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.	<b>Dydd Iau 8 Medi 2016</b>